Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Adroddiad Interim: Deiseb P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol

Chwefror 2019

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau yn ystod ei ystyriaeth o ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthdroi ei phenderfyniad i ddod â Grant Byw'n Annibynnol Cymru i ben. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cyhoeddi adroddiad terfynol ar ôl iddo gynnal gwaith craffu pellach ar y mater hwn.

### Y ddeiseb

**1.** Cafodd deiseb P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol ei chyflwyno ym mis Gorffennaf 2017 gan Nathan Lee Davies, ar ôl casglu cyfanswm o 631 o lofnodion, 324 yn defnyddio gwefan y Cynulliad a 307 ar ddeiseb papur.

**2.** Trafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb am y tro cyntaf ar 3 Hydref 2017.

Testun y ddeiseb:

Fel rhywun sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ac yn ymgyrchu dros bobl anabl, rwy'n bwriadu gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Cyflwynwyd Grant Byw'n Annibynnol Cymru i helpu pobl a oedd yn arfer hawlio arian gan Gronfa Byw'n Annibynnol Llywodraeth y DU, a gaewyd yn 2015. Mae'r cynllun yn helpu mwy na 1,500 o bobl ledled Cymru. Mae gan bawb sy'n cael y Grant lefel uchel o anghenion gofal a chymorth.

Y bwriad oedd rhoi'r gorau i'r cynllun ym mis Mawrth 2017, ond ym mis Tachwedd, dywedodd Rebecca Evans, y Gweinidog gwasanaethau cymdeithasol, y byddai'r cyllid yn parhau am flwyddyn arall.

Yna, bydd y gronfa £27 miliwn yn cael ei throsglwyddo'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn ystod 2018-19 fel y gallant ddiwallu anghenion cymorth y rhai a oedd yn arfer cael arian drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol erbyn 31 Mawrth 2019.

Gwybodaeth ychwanegol:

Pam yr ydym yn gwrthwynebu'r penderfyniad:

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y penderfyniad wedi'i wneud ar sail cyngor gan randdeiliaid. Cynrychiolwyr o'r trydydd sector neu ddinasyddion oedd y mwyafrif ar y grŵp rhanddeiliaid. Ond nid oeddynt eisiau cael gwared ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru, a'r pwynt allweddol yw na chafodd ein cyngor ei dderbyn.

Dylid cofio hefyd nad oes yn rhaid rhoi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ac mae llwyddiant Cronfa Byw'n Annibynnol yr Alban yn brawf o hynny; sydd hefyd yn ddadl o blaid cefnogi Cronfa Byw'n Annibynnol Gogledd Iwerddon.

At hynny, roedd maniffesto poblogaidd y blaid Lafur yn nodi cynlluniau i sefydlu system ofal genedlaethol a fyddai'n annibynnol ar awdurdodai lleol.

Dyma'r union amser y dylai'r Blaid Lafur uno yn erbyn y Torïaid ar faterion o'r fath. Rhaid i ni gwestiynu pam nad yw Plaid Lafur Cymru yn chwarae ei rhan wrth newid y tirlun gwleidyddol?

Yn wir, yn y pen draw, dylem fod yn anelu at sefydlu Cronfa Byw'n Annibynnol i Gymru fel nad oes yn rhaid i unrhyw berson anabl ddioddef yr ansicrwydd a'r unigedd a wynebir gan y rheini sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ar hyn

o bryd. Ni allwn ddechrau credu bod gwir gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb i bawb yn bosibl oni fydd Llafur Cymru yn ailystyried ei benderfyniad ynghylch Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

Mae'n siŵr y bydd Llafur Cymru yn dadlau y dylem roi cyfle i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) lwyddo. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad ac adnoddau sylweddol ar y Ddeddf ddelfrydyddol hon i sicrhau ei bod yn llwyddo – ac nid oes dim golwg o'r gwelliannau sydd eu hangen ar ein seilwaith er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn llwyddo. Efallai'n wir ei bod yn bryd cael chwyldro yn y ffordd y darperir gofal cymdeithasol, ond gallai'r fath drawsnewid gymryd degawd neu ragor, ac nid yw'r rhai sy'n derbyn Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn haeddu cael eu trin fel arbrawf pan fo'u hanghenion o ran gofal a chymorth yn gofyn am sefydlogrwydd a strwythur hirdymor.[1]

# 2. Cefndir

**3.** Sefydlwyd y Gronfa Byw'n Annibynnol (y Gronfa) ym 1988 fel cynllun ledled y DU i helpu pobl ag anghenion gofal dydd a nos sy'n derbyn cyfradd uwch elfen gofal y Lwfans Byw i'r Anabl. Fe'i hanelwyd at bobl anabl ag anghenion cymorth uchel yn hytrach na gofal preswyl a chafodd ei ddarparu yn ychwanegol i wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

**4.** Roedd y Gronfa yn gweithredu fel cronfa ddisgresiwn annibynnol a ariannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn cael ei rheoli gan fwrdd o ymddiriedolwyr. Roedd y rhai oedd yn derbyn arian o'r Gronfa yn defnyddio'r arian i brynu gwasanaethau cymorth, yn benodol cynorthwywyr personol, mewn ffordd debyg i Daliadau Uniongyrchol.

**5.** Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Gweinidog Pobl Anabl Llywodraeth y DU y byddai'r Gronfa yn dod i ben ar gyfer ceisiadau newydd. Ym mis Mawrth 2014, yn dilyn ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa, cyhoeddwyd y byddai'n dod i ben yn barhaol ar 30 Mehefin 2015.[2] O ganlyniad, o 1 Gorffennaf 2015, cafodd cyllid a chyfrifoldeb dros anghenion gofal a chymorth y Gronfa eu trosglwyddo i

[1] P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol

[2] Cyhoeddwyd yn wreiddiol y byddai'r cynllun yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2012. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2013 cefnogodd y Llys Apêl her gyfreithiol yn erbyn Llywodraeth y DU ar y sail ei bod wedi methu â chyflawni ei Dyletswydd Cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa a'r penderfyniad i ddod â hi i ben. Yn dilyn hynny, cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau asesiad o effaith ar gydraddoldeb newydd cyn y cyhoeddiad ym mis Mawrth 2014.

awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio bod y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud heb unrhyw drafodaeth na hysbysiad ymlaen llaw gyda'r gweinyddiaethau datganoledig.[3]

**6.** Trosglwyddodd Llywodraeth y DU swm blynyddol sefydlog o £27 miliwn i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai a arferai dderbyn arian o'r Gronfa. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd 2014 ac fe sefydlodd Grant Byw'n Annibynnol Cymru (y Grant) ar 1 Gorffennaf 2015. O dan hyn, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweinyddu'r Grant ac roedd taliadau yn parhau i gael eu gwneud i'r rhai a arferai dderbyn arian o'r Gronfa. Fodd bynnag, roedd yn parhau i fod ar gau i ymgeiswyr newydd oherwydd, y tro hwn, nododd Llywodraeth Cymru o'r dechrau mai trefniant dros dro ydoedd er mwyn ei galluogi i ystyried trefniadau yn y dyfodol i gefnogi rhai a arferai dderbyn arian.

**7.** Ym mis Tachwedd 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad y byddai'r Grant yn dod i ben ym mis Mawrth 2019 a byddai'r cyfrifoldeb a'r cyllid yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol. Fel rhan o hyn, byddai pawb oedd yn derbyn arian yn cael eu hasesu gan eu hawdurdod lleol am eu hanghenion gofal a chymorth erbyn mis Mawrth (cafodd hyn ei ymestyn yn ddiweddarach hyd at fis Medi 2018).

**8.** Penderfynodd y Gweinidog hefyd y byddai cyfnod pontio, lle byddai'r Grant yn parhau i wneud taliadau i bobl a arferai dderbyn taliadau o'r Gronfa tan yr oedd cyllid wedi'i drosglwyddo i gyllidebau awdurdodau lleol drwy eu dulliau cyllido arferol.

**9.** O fis Ebrill 2018, trosglwyddodd Llywodraeth Cymru y cyllid llawn o £27 miliwn i'r Grant Cymorth Refeniw i awdurdodau lleol, i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i rai a arferai dderbyn taliadau fel rhan o'r ddarpariaeth awdurdod lleol prif ffrwd. Felly nid yw wedi'i neilltuo. Ers hynny, mae awdurdodau lleol wedi cytuno ar becynnau o ofal gyda'r rhai sy'n derbyn arian o'r Grant fel y gallant drosglwyddo o'r Grant i ddarpariaeth awdurdod lleol. Bydd y broses yn dod i ben erbyn 31 Mawrth 2019.

[3] Llywodraeth Cymru, "What happens when the Independent Living Fund closes?" Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion, Mawrth 2015 (cyhoeddwyd mewn gobebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 14 Tachwedd 2017)

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor Deisebau

**10.** Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried y ddeiseb sawl gwaith ers iddi gael ei chyfeirio at y Pwyllgor i ddechrau ym mis Hydref 2017. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried tystiolaeth ysgrifenedig gan y deisebydd, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys pobl y mae'r penderfyniad i ddod â'r Grant i ben wedi effeithio arnynt. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth yn ystod mis Mehefin 2018 gyda'r deisebydd a'i gefnogwyr, ac yna'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC.

**11.** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn trafod y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor mewn perthynas â nifer o faterion allweddol.

## Y broses o wneud penderfyniadau

**12.** Yn ystod trafodaeth gychwynnol y Pwyllgor, trafododd Aelodau ymateb cychwynnol gan y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Rebecca Evans AC. Roedd yn nodi bod y Grant wedi'i gyflwyno ar ôl i Lywodraeth y DU ddod â'r Gronfa i ben, ac ar ôl i'r cyfrifoldeb dros y cynllun gael ei drosglwyddo yn dilyn hynny i Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth parhaus i'r rai oedd yn derbyn arian o'r Gronfa yn y byrdymor, tra bod Llywodraeth Cymru o'r farn:

> "[...] the most appropriate way to provide support to recipients in the longer-term, so as continue their ability to live independently."[4]

**13.** Roedd ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng mis Hydref a Rhagfyr 2014 yn gofyn am farn ar bedwar opsiwn:

- Opsiwn 1: Sefydlu corff arall yn lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru;
- Opsiwn 2: Sefydlu cynllun cenedlaethol ar gyfer byw'n annibynnol yng Nghymru;
- Opsiwn 3: Trosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy eu dulliau cyllido arferol;

[4] Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 21 Awst 2017

- Opsiwn 4: Trosglwyddo cyfrifoldeb a chyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy grant arbennig gydag amodau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

**14.** Sefydlwyd grŵp cynghori rhanddeiliaid hefyd i drafod yr opsiynau hyn yn fanylach ac i roi cyngor er mwyn llywio penderfyniadau'r Gweinidog. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, awdurdodau lleol a rhai sy'n derbyn arian o'r Gronfa/Grant. Pwysleisiodd y Gweinidog:

> "[...] we wanted advice from those who fully appreciated the outcomes disabled people seek and what they required from the arrangements we were to put in place to support their independent living."

**15.** Heriodd y Gweinidog y datganiad a wnaed yn y ddeiseb nad oedd y grŵp cynghori am ddod â'r Grant i ben. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y grŵp wedi derbyn mai dim ond ateb dros dro oedd y Grant, a hefyd:

> "[...] the advisory group on balance favoured the option of future support being provided by local authorities as part of their social care provision. None of the members of the advisory group opposed this recommendation."[5]

**16.** Mae'r deisebydd wedi herio'r honiadau hyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod wedi siarad â sawl aelod o'r grŵp cynghori a oedd yn gwrthwynebu darpariaeth yr awdurdod lleol.[6]

**17.** Yn ystod sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018, gofynnodd y Pwyllgor ynghylch y pwynt hwn i'r Gweinidog a oedd bellach wedi cael cyfrifoldeb dros bolisi gwasanaethau cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC. Atebodd y Gweinidog:

> "Yes, it's absolutely clear that this was a consensus position. It was an on-balance decision. There wasn't unanimity, Chair, and we accept that. We always did, because there were different views around the table. But the clear consensus—and that actually filtered through, then, in the advice that came to my predecessor Ministers—was: [...] that the right way to remove the inequity of the two tiers, and also to avoid the costs that would come with setting up a whole administrative system or

[5] Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 21 Awst 2017

[6] Y Deisebydd at y Pwyllgor, 28 Medi 2017

> buying into an agency like the Scottish ILF, to avoid those, this was the right way forward."[7]

**18.** Gofynnodd y Pwyllgor am gopïau o nifer o ddogfennau yn ymwneud â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru gan gynnwys: cofnodion o gyfarfodydd y grŵp cynghori; crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2014; a'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn ymwneud â'r penderfyniad.

**19.** Mewn ymateb, rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'r ymarfer ymgynghori a'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw gofnodion ffurfiol o gyfarfodydd y grŵp cynghori rhanddeiliaid, ac yn hytrach, cafodd crynodeb eu hanfon mewn negeseuon e-bost at aelodau yn nodi'r pwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt.[8]

**20.** Daeth 281 o ymatebion i law i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddyfodol y Gronfa yng Nghymru. Mae'r crynodeb o'r ymatebion yn cydnabod bod nifer fawr o ymatebwyr o blaid creu cynllun olynol i'r Gronfa yng Nghymru ar sail bod y cyllid yn helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl. Yn yr un modd, heblaw gan awdurdodau lleol, nid oedd llawer o gefnogaeth i'r cynnig i drosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer diwallu anghenion cymorth y rhai sy'n derbyn arian o'r Gronfa i awdurdodau lleol, gyda'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw. Mae'r crynodeb yn nodi nad oedd yr opsiwn hwn wedi cael ei gefnogi gan y rhai oedd yn derbyn arian o'r Gronfa oherwydd diffyg ffydd yng ngallu awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth a ddymunir ac ofn na fyddai'r lefelau ariannu presennol yn cael eu cynnal. Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd drwy gydol ystyriaethau'r Pwyllgor o'r ddeiseb gan y deisebydd ac eraill.

**21.** Fodd bynnag, mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn wedi'i mynegi gan y ddau brif grŵp a ymatebodd i'r ymgynghoriad:

> "The views expressed and support given for the four options are quite clear. Support for Options 1 & 2 came largely from ILF recipients, their carers, family or representatives. Options 2 [sic] & 4 gained their support, in the main, from local authorities and their representative bodies."[9]

---

[7] Cofnod y Trafodion, 19 Mehefin 2018, paragraff 180

[8] Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, 14 Tachwedd 2017

[9] Llywodraeth Cymru, "What happens when the Independent Living Fund closes?" Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion, Mawrth 2015 (cyhoeddwyd mewn gobebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, 14 Tachwedd 2017)

## Y penderfyniad

**22.** Yn ei hymateb cychwynnol i'r Pwyllgor Deisebau ym mis Hydref 2017, gwnaeth y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd grynhoi penderfyniad Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> "I accepted the stakeholder advisory group's advice to have support to former ILF recipients in Wales provided in future by local authorities as part of their social care provision. To put this into place the advisory group also recommended that there should be a two year transitional period, whereby in the first year authorities establish all recipients' desired well-being outcomes and agree with them the support they require to achieve these. In the second year recipients would transfer over to receiving all of their support from their local authority, with their payments under the WILG ceasing at the point at which this occurred. I also accepted this recommendation in full, with as a result the transitional period commencing from 1 April this year and due to conclude on 31 March 2019."[10]

**23.** Disgrifiodd y Gweinidog sawl rheswm dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid i gefnogi rhai sy'n derbyn arian o'r Grant i awdurdodau lleol. Nododd fod y grŵp cynghori rhanddeiliaid wedi derbyn neu gefnogi'r rhesymau hyn.

**24.** Y cyntaf oedd sicrhau y byddai cymorth yn y dyfodol i'r rhai a arferai dderbyn taliadau yn gyson â'r hyn sy'n cael ei ddarparu'n gyffredinol i bobl anabl a phobl hŷn yng Nghymru. Yn hyn o beth, cyfeiriodd y Gweinidog at y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r ffordd y caiff anghenion pobl eu hasesu a'r ffordd y darperir cymorth, gan gynnwys galluogi pobl i gael mwy o fewnbwn i'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cael. Disgrifiodd y Gweinidog y newidiadau hyn fel rhai yn debyg i'r ethos y tu ôl i sefydlu'r Gronfa yn wreiddiol.[11]

**25.** Rhesymeg arall cysylltiedig oedd cael gwared â'r dull dwy haen annheg lle mae rhai pobl anabl yn cael cymorth gan eu hawdurdod lleol, tra bod eraill yn ei gael yn ogystal â thaliadau pwrpasol o'r Grant.[12] Daeth yr EIA i'r casgliad y byddai

[10] Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 21 Awst 2017

[11] Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 21 Awst 2017

[12] Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 21 Awst 2017

cyfle cyfartal yn well o ganlyniad i gael gwared ar y system dwy haen o ddarparu cymorth i bobl anabl.[13] Fel y dywedodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, Huw Irranca-Davies AC, wrth y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018:

> "[...] hence the objective of this transition, and of the support reviews being undertaken within it, is to ensure all disabled people are empowered in a consistent way to be able to live independently in a manner that is appropriate in their particular circumstances."[14]

**26.** Cafodd hyn ei gefnogi gan Gynghorau Bwrdeistref Sirol Conwy a Thorfaen yn eu hymatebion i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth. Dywedodd Cyngor Torfaen y byddai trosglwyddo cyfrifoldeb i awdurdodau lleol yn galluogi dull mwy teg fel bod pawb yn cael eu hasesu yn yr un ffordd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roeddent hefyd yn dadlau y dylai'r trosglwyddiad fod wedi'i wneud yn gynharach gan fod natur hirfaith y penderfyniad a'r trosglwyddiad wedi achosi peth ansicrwydd a dryswch, sydd hefyd wedi bod yn feichus yn weinyddol.[15]

**27.** Mewn ymateb, roedd y deisebydd wedi dadlau mai ateb tecach i'r mater system dwy haen fyddai gwneud y Grant, neu gynllun olynol, yn agored i ymgeiswyr newydd sy'n bodloni'r meini prawf am gymorth.

**28.** Daeth yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016 i'r casgliad y byddai'r penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol oherwydd:

> "Recipients in future will be supported by their local authority based on the well-being outcomes they are seeking to achieve. These will directly support their independent living. As such the rights of recipients to live as they wish will be upheld."[16]

**29.** Fodd bynnag, nododd Luke Clements, Athro'r Gyfraith a Chyfiawnder Cymdeithasol ym Mhrifysgol Leeds, ac Ann James, gweithiwr cymdeithasol wedi ymddeol ac academydd gwaith cymdeithasol, fod rhesymeg Llywodraeth Cymru

---

[13] Llywodraeth Cymru, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, 27 Hydref 2016 (a gyhoeddwyd mewn gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 14 Tachwedd 2017)

[14] Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 22 Tachwedd 2018

[15] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen at y Pwyllgor, 4 Medi 2018

[16] Llywodraeth Cymru, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, 27 Hydref 2016 (a gyhoeddwyd mewn gohebiaeth gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, 14 Tachwedd 2017)

dros ddod â'r Grant i ben a throsglwyddo cymorth i awdurdodau lleol yn cymharu'n fras â'r dadleuon a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r penderfyniad gwreiddiol i ddod â'r Gronfa i ben. Gwnaethant ddisgrifio:

> "[…] an overly optimistic view of what the 2014 Act will deliver following the closure of the WILG in 2019. It also fails to acknowledge and consider the potential adverse effect on individuals who may have significant changes to provision and how this will be addressed to ensure the recipients right to Independent Living."[17]

**30.** Gwnaethant hefyd gyfeirio'r Pwyllgor at bapur yr oeddent wedi'i ysgrifennu a oedd yn trafod dod â'r Grant i ben. Roedd yn cyfeirio at amgylchiadau penodol lle darperir gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru:

> "Wales has a high proportion of relatively small local authorities – and for many of these councils the budgetary impact of funding a disabled person with profound impairments can be substantial. Austerity measures over the last 8 years has left many Local Authorities in Wales (and in England) facing immense challenges in ensuring that they meet their statutory obligations to disabled people in need of care and support. It is in this context, that there is a high likelihood that the needs of disabled people with profound impairments may be severely compromised. It is for this reason (among many others) that there continues to be a need for a Wales wide ILF scheme."[18]

## Pryderon a fynegwyd gan y deisebydd

**31.** Roedd y prif bryderon a fynegwyd gan y deisebydd ac eraill yn ymwneud ag ofn ynghylch effaith trosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer cefnogi'r rhai a arferai dderbyn arian o'r Gronfa i awdurdodau lleol. Yn benodol, maent yn ymwneud â gallu ariannol ac adnoddau awdurdodau lleol, yn enwedig mewn cyfnod o gyni, i efelychu'r ffocws ar fyw'n annibynnol yn ddigonol yr oedd y Gronfa a'r Grant yn ei hyrwyddo.

**32.** Fodd bynnag, roedd y pryderon hefyd yn ymwneud â phrofiadau blaenorol o weithio gydag awdurdodau lleol neu dderbyn gwasanaethau ganddynt. Roedd

[17] Luke Clements ac Ann James at y Pwyllgor, 16 Awst 2018

[18] Ann James a Luke Clements, "Closure of the Welsh Independent Living Grant: In the cause of equality of provision for disabled people?", a gyhoeddwyd yn "Rhydian: Wales Social Welfare Law on-line (2018)" 23-26

hyn yn cynnwys pryder gan y deisebydd ynghylch deall y term "byw'n annibynnol" ei hun:

> "It is no secret that a Medical Model attitude towards disabled people remains endemic and institutionalised across the public sector and it is clear from the regional needs assessments and particularly Social Care Wales' summary report, that there is no understanding of the distinction between 'being independent' [meaning managing without support] and 'Independent Living' that Welsh Government have formally accepted as meaning disabled people living the lives they choose, in the way they choose and supported how, when, where and by whom they choose."[19]

**33.** Mynegodd y deisebydd bryder ynghylch y tebygolrwydd y bydd nodau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu gwireddu ledled Cymru:

> "[...] it is the experience of disabled people and unpaid Carers that some local authorities simply cannot be trusted to translate the 2014 Social Services and Well-being Act into genuine independent living for those who require high levels of support."[20]

**34.** Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wrth y Pwyllgor nad oedd yn cydnabod graddau'r pryderon a hefyd:

> "The decisions we have taken have not sought to prevent disabled people in Wales from living independently at home, or to reduce the support for which they are entitled. As a government we have sought to support this right to live independently through the 2014 Act, where we are changing the emphasis upon the way people are supported to give them more voice and control over the care and support they require to meet the wellbeing outcomes they wish to achieve."[21]

**35.** Amlinellodd y Gweinidog y camau pendant y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i gyflawni'r nod hwn, a oedd yn cynnwys gwaith gan Gofal Cymdeithasol Cymru i hyfforddi a chefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwerthusiad annibynnol ffurfiol o'r Ddeddf. Cyfeiriodd at:

---

[19] Y deisebydd at y Pwyllgor, 29 Ionawr 2018

[20] Y deisebydd at y Pwyllgor, 29 Ionawr 2018

[21] Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 20 Mawrth 2018

> "[...] many signs of this becoming standard practice across Wales to the benefit of those who rely on support, which in turn will have a positive effect on the future support packages which are being agreed for WILG recipients."[22]

**36.** Roedd pryder arall a fynegwyd gan y deisebydd yn ymwneud â cholli'r strwythur tairochrog o fewn gweithrediad y Gronfa (nododd hefyd na chafodd yr elfen hon ei hefelychu'n llawn yn y Grant). Roedd hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn taliadau, gweithwyr cymdeithasol a gyflogir gan weinyddiaeth ganolog y gronfa a'r awdurdod lleol wrth asesu a dod i benderfyniadau ynghylch gofal a chymorth. Eglurodd:

> "[...] the other element of the Independent Living Fund was that independent Social Workers carried out the assessments and reviews so that disabled people felt protected by the independent oversight of a qualified and experienced social worker who could not be intimidated by the local authority."[23]

**37.** Mewn ymateb, eglurodd y Gweinidog y byddai'r dull newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a fyddai'n deillio o Ddeddf 2014 yn negyddu rhywfaint o'r pryder hwn. Cyfeiriodd at hawliau sydd gan unigolion i ofyn am ailasesiad o'u hanghenion, hawl i ystyried p'un a ddylai ymarferydd gwahanol gynnal yr ailasesiad, a hawl am eiriolaeth annibynnol. Dadleuodd y Gweinidog ei bod hi felly'n anodd gwneud y gymhariaeth â Lloegr pan nad oedd llawer o'r agweddau hyn, gan gynnwys y cyfnod pontio, yn eu lle.[24]

**38.** Mae'r deisebydd hefyd wedi dadlau ei bod hi'n ymddangos na roddwyd digon o ystyriaeth i rai o'r atebion eraill, gan gynnwys p'un a ddylid fod wedi sefydlu Cronfa barhaol yng Nghymru.

**39.** Cyfeiriodd tystiolaeth y deisebydd hefyd at y ffaith bod Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu sefydlu Cronfa Byw'n Annibynnol yr Alban yn lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar ôl iddi gael ei datganoli. Oherwydd cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth Gogledd Iwerddon, mae'r rhai a arferai dderbyn arian o'r Gronfa yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cael mynediad i gyllid parhaus, gyda'r gwaith gweinyddu yn cael ei wneud gan y Gronfa yr Alban.

**40.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ym mis Mehefin 2018 fod sawl rheswm pam na chymerwyd y dull hwn yng Nghymru. Yn gyntaf, roedd y rhain yn

[22] Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, (Saesneg yn unig) 20 Mawrth 2018

[23] Y deisebydd at y Pwyllgor, 29 Ionawr 2018

[24] Cofnod y Trafodion, 19 Mehefin 2018, paragraffau 211-221

cynnwys pryderon dros gapasiti'r Gronfa yr Alban i wneud y gwaith bryd hynny gan eu bod eisoes mewn trafodaethau yng Ngogledd Iwerddon, er fe wnaeth y Gweinidog dderbyn y gallai hynny fod wedi newid dros amser. Yn ail, dywedodd y Gweinidog fod costau gweinyddol hefyd yn ffactor:

> "The other aspect that is really pertinent to this is the sums of money involved [...] So, the initial set-up costs—they were estimates that were based on discussions with ILF Scotland—were around £200,000 for setting-up costs. So, that would be one element of funding. And the other thing was the annual running cost. The annual running cost was estimated at around £800,000 a year. Now, bear in mind we're talking about a scheme that closed in 2010 with a sum of money of £27 million that is not index linked et cetera, et cetera, [...] This is one of the reasons why the advisory group, then, in their advice to Minister said, 'Actually, we've looked at that and it's not the option we want to take forward'."[25]

**41.** Mewn cymhariaeth, dywedodd y Gweinidog fod costau gweinyddol ychwanegol yr opsiwn a ddewiswyd – sef trosglwyddo cyfrifoldeb a chyllid i awdurdodau lleol – yn ymylol oherwydd bod y rhan fwyaf o rai sy'n derbyn arian o'r Grant eisoes yn derbyn gwasanaethau ac asesiadau gan eu hawdurdod lleol.

**42.** Yn olaf, mae'r deisebydd wedi gwneud nifer o gyfeiriadau at brofiad ac effaith dod â'r Gronfa i ben yn Lloegr yn gynharach, fel y nodwyd gan sawl astudiaeth. Cyfeiriodd at ganfyddiadau gan gynnwys:

> "[...] that former recipients of the ILF in England experienced a loss of support, a greater reliance on unpaid care and an "adverse" impact on their physical and mental health after its closure."[26]

**43.** Dywedodd Ann James a Luke Clements fod dadansoddiad ac astudiaethau o'r effaith yn sgil dod â'r Gronfa yn Lloegr i ben yn sicr yn gwneud i'r rhai sy'n cael arian o'r Grant yng Nghymru bryderu. Maent yn nodi bod y canfyddiadau hyn yn ymwneud â phryder a gorbryder ymysg y rhai sy'n derbyn arian, lleihad yn lefel y cymorth i rai gan arwain at golli annibyniaeth, a "loteri cod post" o ran y cymorth a ddarparwyd yn dilyn y newid (mewn perthynas â chymorth awdurdod lleol a chymorth a ddarperir gan y GIG).[27]

---

[25] Cofnod y Trafodion, 19 Mehefin 2018, paragraff 185

[26] Y deisebydd at y Pwyllgor, 16 Hydref 2018

[27] Ann James a Luke Clements, "Closure of the Welsh Independent Living Grant: In the cause of equality of provision for disabled people?", a gyhoeddwyd yn "Rhydian: Wales Social Welfare Law on-line (2018)" 23-26

## Y broses bontio

**44.** Yn ystod llawer o'r amser y mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried y ddeiseb, mae'r broses bontio o'r Grant i gymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol wedi mynd rhagddi. Cyfeiriodd y deisebydd at y broses fel un llawn straen o safbwynt personol a nododd ei fod yn teimlo ei fod wedi bod o dan bwysau gan ei awdurdod lleol. Cyfeiriodd at sylwadau a wnaed gan weithiwr cymdeithasol blaenorol sef, heb y Grant y byddai ond yn cael 30 awr yr wythnos, a nododd ei fod wedi bod o dan bwysau amser i gymryd rhan yn y broses asesu:

> "Also, about transition, one thing I should make clear is that once I heard from my social worker earlier last month, they wanted to come round and see me within two weeks. I said, 'Well, that won't be possible because I'm so busy with the campaign, obviously.' Then, I get an e-mail back from the social worker saying that if I don't comply and if I don't meet the social worker before 31 May, then they would have to consider stopping my direct payments."[28]

**45.** Clywodd y Pwyllgor wybodaeth gan Anabledd Dysgu Cymru gan ganolbwyntio ar brofiad Sonny, 29 oed, sydd ag anabledd dysgu. Roedd yn amlinellu'r daith yr oedd Sonny a'i fam wedi bod arni i geisio sicrhau cyllid o'r Gronfa yn y lle cyntaf a'r budd y cafodd y cyllid hwn wrth gefnogi Sonny i fyw'n annibynnol. Dywedodd mam Sonny, Jackie, wrth y Pwyllgor:

> "His support and services need to be maintained otherwise they will be taking away his independence, his well-being, his support, his happiness."[29]

**46.** Ysgrifennodd Trevor Palmer, un oedd yn derbyn arian o'r Gronfa a'r Grant, at y Pwyllgor i amlinellu'r effaith a gafodd y broses bontio arno:

> "As a disabled person who requires support to get around and live independently I was able to pursue some voluntary activities and personal interests with the ILF & WILG support. Earlier this year my local authority reviewed my support and it has now been cut by sixty percent. This has had a dramatic effect on not only my life but my family and others."[30]

[28] Cofnod y Trafodion, 5 Mehefin 2018, paragraff 286

[29] Anabledd Dysgu Cymru at y Pwyllgor, 11 Medi 2018

[30] Trevor Palmer at y Pwyllgor, 23 Awst 2018

**47.** Rhoddodd Cyngor Torfaen wybodaeth i'r Pwyllgor am y broses bontio o'u safbwynt nhw:

> "The biggest area of concern has been the staffing implications for vulnerable individuals and their carers to manage on top of a change management process that has had the potential to change the levels of independence people aspire to and hence the routines and familiarity of their daily lives. The main staffing issues being, pay, redundancy and other employment issues for those individuals who have employed staff. There are limited resources and understanding available from sources independent of the local authority in order for people to find the most appropriate support with employment matters."[31]

**48.** Dywedodd y Cyngor fod y rhan fwyaf o bobl maent yn eu cefnogi drwy'r broses bontio wedi dewis cael Taliadau Uniongyrchol i'w galluogi i barhau i gyflogi staff yn uniongyrchol, er bod Cyngor Conwy wedi dweud bod y rhai sy'n derbyn arian drwy'r Grant wedi croesawu'r cyfle i gymryd llai o gyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli ochr ariannol y grant hwnnw yn y dyfodol.[32]

**49.** Nododd y ddau gyngor hefyd fod uchafswm tâl wythnosol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal di-breswyl wedi golygu, mewn rhai achosion, bod yr angen am gyfraniadau gan unigolion tuag at gost eu gofal wedi lleihau o ganlyniad i'r broses bontio.

**50.** Ym mis Tachwedd 2018, diweddarodd y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol y Pwyllgor ar y broses bontio: Roedd data monitro chwarterol a ddarparwyd gan awdurdodau lleol wedi dangos, o'r 1,336 o bobl a oedd yn derbyn taliadau o dan y Grant yn wreiddiol:

- roedd 1,242 (93%) wedi cwblhau neu yn y broses o gwblhau eu hadolygiad cymorth gyda'u hawdurdod lleol;
- roedd 54% wedi cytuno ar eu pecyn cymorth yn y dyfodol ac yn ei dderbyn drwy eu hawdurdod lleol;
- roedd tri chwarter o'r rheini (74%) yn derbyn cymorth o lefel a natur debyg i'r hyn yr oeddent wedi bod yn ei gael o dan y Grant;
- roedd lefel cymorth i 14% o'r rhai a adolygwyd wedi cynyddu;

[31] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen at y Pwyllgor, 4 Medi 2018
[32] Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy at y Pwyllgor, 14 Medi 2018

- roedd lefel cymorth i 14% o'r rhai a adolygwyd wedi lleihau gan yr awdurdod lleol;
- nid oedd 64 o bobl wedi dechrau eu hadolygiad cymorth bryd hynny.

**51.** O ystyried hyn, roedd y Gweinidog yn dadlau y byddai'n anodd, ac o bosibl yn wrthgynhyrchiol, i wrthdroi'r penderfyniad i ddod â'r Grant i ben ar hyn o bryd:

> "Given [...] the support for the majority of the disabled people affected by this transition is now being provided through their local authority, it is difficult to see how this could now be unpicked to reinstate the WILG as Mr Davies' petitions without creating turmoil for those who have been through this transition."

**52.** Fodd bynnag, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod wedi gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnal adolygiad manwl o bob achos lle mae bwriad i leihau cymorth uniongyrchol i'r person, ac i roi sicrwydd nad yw unrhyw newidiadau a wneir yn effeithio ar allu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned.[33]

**53.** Ym mis Rhagfyr 2018 gofynnodd y Pwyllgor am gopi o allbwn yr adolygiad hwn, yn ogystal â manylion unrhyw gamau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AC, sydd bellach yn gyfrifol am bolisi yn y maes hwn, ym mis Ionawr 2019 i ddarparu copi a naratif cysylltiedig.

**54.** Roedd hyn yn dangos bod gostyngiad yn elfen Grant blaenorol cymorth unigolyn wedi'i gynnig mewn 157 o achosion. I'r rhan fwyaf o bobl, roedd y gostyngiad a nodwyd gyfwerth â rhwng 1 a 14 awr yr wythnos (92 achos). Fodd bynnag, mewn 46 achos roedd y gostyngiad mewn cymorth yn ymwneud â 15 awr neu fwy.

**55.** Roedd y rhesymau a maint y gostyngiad yn amrywio o unigolyn i unigolyn. Dywedodd y Gweinidog y gellid crynhoi'r mwyafrif fel

> - "newid yn y dull neu'r math o gymorth a ddarperir;
> - nifer o achosion lle mae angen gofal iechyd ar berson bellach yn hytrach na gofal cymdeithasol; ac

[33] Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol at y Pwyllgor, 22 Tachwedd 2018

- achosion lle cynigiwyd newidiadau i'r trefniadau comisiynu ar gyfer gofal gan nad oedd gwerth llawn y cyllid wedi'i ddefnyddio'n flaenorol."[34]

**56.** Nododd crynodeb yr adolygiad manwl, mewn rhai sefyllfaoedd lle roedd pobl wedi profi gostyngiad mwy mewn cymorth, bod hyn oherwydd defnydd cynyddol o dechnoleg fel teleofal a newidiadau mewn amgylchiadau teuluol. Yn ddealladwy, nid yw'n glir o'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor faint o'r newidiadau hyn a gafodd eu hannog neu sy'n bodloni person a oedd yn cael gofal.

**57.** Mae hefyd yn amlwg o'r crynodeb bod llawer o amrywiaeth rhwng canran y rhai oedd yn derbyn arian yr oedd eu cymorth wedi lleihau fel hyn rhwng gwahanol awdurdodau lleol.

**58.** Er enghraifft, ymysg awdurdodau lleol a oedd wedi adolygu'r gofal o 30 o leiaf o rai oedd yn derbyn arian o'r Grant, nid oedd Ynys Môn wedi lleihau lefel y cymorth mewn unrhyw achos (o 33 unigolyn), roedd Powys wedi gwneud hynny mewn un achos allan o 62 (1.6%) a Sir Fynwy mewn 2 o 82 (2.4%). I'r gwrthwyneb, roedd Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro wedi lleihau cymorth i 11 o bobl allan o'r 30 yr oeddent wedi'u hasesu (36.7%) a Wrecsam mewn 24 allan o gyfanswm o 58 (41.2%).[35]

**59.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n cyfarfod yn bersonol â'r deisebydd yn ddiweddarach y mis hwnnw ac y byddai hi yn:

> "[…] decide what further action may need to be taken to ensure the transfer is effective in supporting independent living."[36]

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

**60.** Trafododd Pwyllgor Deisebau ganlyniadau'r adolygiad manwl ac adroddiad drafft o'r dystiolaeth a ddaeth i law mewn cyfarfod ar 12 Chwefror 2019. Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi'r adroddiad interim hwn fel crynodeb o'r dystiolaeth y mae wedi'i chael ac i gynnal sesiwn dystiolaeth bellach gyda'r Dirprwy Weinidog

[34] Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd, 17 Ionawr 2019

[35] Llywodraeth Cymru, Summary of Outcome - Deep Dive Reviews by Local Authorities in Connection with the Welsh Independent Living Grant (WILG), (Saesneg yn unig) Hydref/Tachwedd 2018

[36] Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd, 17 Ionawr 2019

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted â phosibl. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu llunio adroddiad terfynol o'r ddeiseb hon yn dilyn hyn.

**61.** Hefyd, ar 12 Chwefror 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru. Mae'n cydnabod bod yr "ailasesiad hwn wedi achosi tensiwn mewn rhai achosion" a hefyd:

> "[...] roedd 13 y cant o bobl bryd hynny wedi gweld gostyngiad yn oriau eu cymorth, ac er bod y gostyngiad hwnnw wedi'i gytuno gan bob ochr mewn nifer o achosion, roedd rhai pobl yn anfodlon â'u sefyllfa. Mae amrywiad sylweddol i'w weld yn lleol, gyda chanran y rhai arferai dderbyn taliadau o'r Gronfa sydd â'u horiau gofal wedi gostwng yn amrywio rhwng 0% a 42% mewn gwahanol awdurdodau lleol.
>
> Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac wedi dod i'r casgliad bod yr amrywiad rhwng awdurdodau lleol yn gofyn am newid cyfeiriad. Rwyf felly wedi ysgrifennu at arweinwyr awdurdodau lleol yn gofyn iddynt oedi'r pontio ar unwaith er mwyn cyflwyno trefniadau diwygiedig.
>
> Bydd angen gweithio ar fanylion y trefniadau newydd gydag awdurdodau lleol, ond dyma'r prif elfennau rwyf am eu sicrhau:
>
> - Bydd asesiad annibynnol o waith cymdeithasol yn cael ei gynnig i bob un oedd yn arfer derbyn taliadau o'r Gronfa sydd bellach yn anfodlon â'u pecyn gofal a chymorth ac sy'n dymuno cael ail farn. Bydd y farn annibynnol hon yn adlewyrchu trefniadau oedd yn bodoli dan y Gronfa Byw'n Annibynnol, ac felly'n adfer system benderfyniadau dairochrog;
> - Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol am gost gweithwyr cymdeithasol annibynnol ac oriau gofal ychwanegol a all godi o'r asesiadau annibynnol hyn. Mae hynny'n golygu nad oes cwestiwn o newidiadau i becyn gofal a chymorth er mwyn torri costau;
> - Yr egwyddor sylfaenol wrth gynnal asesiad annibynnol yw y dylai'r canlyniad fod yn gyson â chanlyniadau llesiant a gytunwyd ar gyfer pobl. Gan nad oes rhwystr ariannol, nid oes rhaid i unrhyw un gael gofal a chymorth llai ffafriol na'r hyn a gafwyd dan drefniadau'r Gronfa;

- Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod hawl hanesyddol y rhai a fu'n derbyn arian o'r Gronfa yn y gorffennol."[37]

**62.** Mae'n ymddangos bod hyn yn newid cyfeiriad sylweddol i Lywodraeth Cymru a'i fod yn cydnabod yr anghysondebau amlwg rhwng dulliau awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses bontio ac ailasesu.

**63.** Mae datganiad y Dirprwy Weinidog hefyd yn cydnabod ymdrechion ymgyrchu Nathan Davies (y deisebydd) ac yn nodi y bydd yn ceisio gweithio'n agos gydag arweinwyr llywodraeth leol dros yr wythnosau nesaf i fwrw ymlaen â'r dull hwn.

[37] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Grant Byw'n Annibynnol Cymru, 12 Chwefror 2019